# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 10fed RHAGFYR 2024 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Justin Davies, Judith Humphreys, Barry Bracegirdle, Ceri Owen - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts - Llanllyfni, Harry Owen - Talysarn.

**Ymddiheuriadau** -Dylan Herbert, Erfyl Williams - Penygroes, Siân Dafydd, Gareth Jones, Nigel Williams - Talysarn, Tesni Glyn - Llanllyfni, Gerallt Hughes - Nantlle. Cyng. Peter Thomas.

2. **Datgan buddiant** – pwynt 9- Materion Pentrefi – Ciosg Nebo – Dafydd Thomas

3. **Cofnodion cyfarfod 12fed Tachwedd 2024** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir, ond bod angen nodi dyddiad y cyfarfod nesaf ar waelod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** – nid oedd dim yn codi nad yw yn cael ei drafod nes ymlaen ar yr agenda.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas a diolchwyd iddo am ei pharatoi ac am ei waith. Nid oedd yn bresennol heno ond roedd wedi adrodd i gysylltu gydag o os oedd unrhyw beth yn codi o'r adroddiad. Nid oedd dim yn codi.

6. **Adroddiad cyfarfod is-bwyllgor a gynhaliwyd** – nid oedd cyfarfod wedi ei gynnal.

7. **Llwybrau a Mynwentydd** - adroddwyd bod y clerc, cadeirydd a Cyng. Peter Thomas wedi cyfarfod â Geraint Hughes o Gyngor Gwynedd i drafod pris am doriadau gwair ychwanegol. Trafodwyd a phenderfynwyd yn unfrydol i fynd gyda'r pris a gafwyd ar gyfer y toriadau ychwanegol. **Tendr torri llwybrau a mynwentydd 2025-28** - Dafydd Thomas wedi gwneud y newidiadau a drafodwyd. Mynwent Macpela - sbwriel dal cael ei adael o dan yr arwydd. Gofyn i Ifan ac Idris fynd i'w waredu a chadw llygaid ar y sefyllfa. Hefyd gofyn am bris i roi arwyddion newydd yn dweud bod 'na finiau yno ar gyfer sbwriel.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi derbyn copi o'r fantolen ac nid oedd dim yn codi gyda hi. Bydd angen trafod y praesept yn y cyfarfod nesaf.

9. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - y grisiau wrth ymyl Wynnstay ei gwaelod eisiau eu glanhau hyd at y gyli. **Llanllyfni** - lamp ar waelod Lôn Ddŵr ddim yn gweithio ac angen sylw. Angen holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â thorri wrth ymyl Graianfryn. Adroddwyd bod ci wedi ymosod ar ddefaid ar lwybr Garreg Wen a holi os oes unrhyw beth all y Cyngor Cymuned wneud am hyn - dim yn gweld beth allwn wneud heblaw am gysylltu gyda heddlu cefn gwlad am y mater. **Nebo -** blychau ffôn Nebo a Tanrallt - cais wedi dod gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gefnogaeth i achub ciosg Tanrallt rhag cael ei dynnu oddi yno. Hefyd roedd e-bost wedi ei dderbyn gan berson oedd yn ymwneud ag achub blychau ffôn ac a oedd yn gwneud gwaith adnewyddu arnynt ayyb. Dafydd Thomas am gysylltu gydag o am sgwrs bellach. Blwch ffôn Nebo - bu i Dafydd Thomas adael yr ystafell - llythyr wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Ardal Nebo yn gofyn caniatâd gan y Cyngor Cymuned i ymgymryd â'r gwaith o adfer y blwch. Trafodwyd a chytunwyd yn unfrydol i ganiatáu hyn.

10. **Stad ger Treddafydd i Adra** - wedi derbyn ebost and Adra yn gofyn a y buasai'r Cyngor Cymuned yn hapus i gymeradwyo'r enw "Ffrwd Garreg Wen" ar gyfer stad tai newydd ym Mhenygroes. Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r enw hwn a phasiwyd yn unfrydol i'w gymeradwyo.

11. **Cerflun Plas Silyn Penygroes** - yn dilyn ychydig o newid i'r cytundeb a phawb wedi cael cyfle i edrych drosti cynigwyd ac eiliwyd i basio bod y Cyngor Cymuned yn cymryd drosodd y cerflun pan fydd wedi ei gwblhau.
Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

12. **<u>Cais i ystyried galw am ddatganoli stâd y goron yng Nghymru a'r incwm ddaw ohoni i lywodraeth Cymru</u>** - roedd pawb wedi cael copi o e-bost a oedd wedi ei dderbyn ymlaen llaw i edrych drosto ond bu i Judith Humphreys esbonio'r mater ymhellach - yn dilyn cael gwell dealltwriaeth gan Judith cynigwyd ac eiliwyd i basio y cais hwn.

13. **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>** -

*- C24/0963/22/LL – Cyngor Gwynedd Ysgol Bro Lleu – adeiladu a darparu adeilad modiwlaidd newydd ar gyfer meithrinfa newydd – DIM GWRTHWYNEBIAD*

14. **<u>Gohebiaeth</u>** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi ohonynt.

15. **<u>Materion ariannol</u>** - cytunwyd i dalu'r isod.
- R J Electrics - atgyweirio'r golau Nadolig = **£1084.17**
- RJ Electrics – gosod, tynnu a storio'r golau Nadolig = **£3630.00**
- *Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00***
- *Papur Bro Lleu – hysbyseb ceisiadau cymorth ariannol = **£76.00***
- *Papur Bro Lleu – hysbyseb gwaith cyfieithu = **£17.00***

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod. Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 14eg Ionawr 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________